

## IS-DDEDDFAU PARC GWLEDIG Y GOGARTH

Is-ddeddfau sydd wedi eu gwneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan Adran 41 Deddf Cefn Gwlad 168, mewn perthynas â Pharc Gwledig y Gogarth, Llandudno.

### Dehongliad

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:  
mae "y Cyngor" yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;  
mae "y tir" yn golygu Parc Gwledig Y Gogarth, Llandudno, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, fel y dangosir ef ar y cynllun sydd wedi ei atodi yma.

### Cerbydau

2. (1) Ni chaiff unrhyw berson, heb reswm rhesymol, reidio na gyrru beic, beic modur, cerbyd modur neu unrhyw gerbyd arall a yrrir yn fecanyddol ar y tir, neu achosi i unrhyw feic modur, gerbyd modur, trelar neu unrhyw gerbyd arall a yrrir yn fecanyddol (heblaw am feic seiclo) fod ar y tir, ag eithrio ar unrhyw ran o'r tir lle mae hawl tramwy i gerbyd yn y dosbarth hwnnw.  
(2) Os yw'r Cyngor wedi neilltuo llecyn ar y tir i'w ddefnyddio gan gerbydau o unrhyw ddosbarth, ni fydd yr is-ddeddf hon yn atal reidio neu yrru y cerbydau hynny yn y llecyn a ddynodwyd, neu ar lwybr, a ddangosir gan arwyddion sydd wedi eu gosod mewn safleoedd amlwg, rhngddo a'r mynediad i'r tir.  
(3) Nid fydd yr is-ddeddf hon yn ymestyn i gynnwys cerbyd person gydag anabledd.  
(4) Yn yr is-ddeddf hon:  
mae "beic" yn cynnwys beic, beic tair olwyn neu feic sydd â phedair neu fwy o olwynion, heb fod mewn unrhyw achos yn feic modur neu'n gerbyd modur;  
mae "cerbyd person gydag anabledd" yn golygu cerbyd, pa un ai a yw'n un a yrrir yn fecanyddol ai peidio, heb fod â phwysau gweili dros 150 cilogram, heb fod yn lletach na 0.85 metr ac sydd wedi cael ei adeiladu neu ei addasu i'w ddefnyddio i gludo un person, sef person sy'n dioddef o fath o ddiffyg corfforol neu anabledd ac sy'n cael ei ddefnyddio gan y person hwnnw yn unig;  
mae "beic modur" yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol, heb fod yn gerbyd person gydag anabledd, sydd â llai na phedair olwyn ac sydd heb fod â phwysau gweili dros 410 cilogram;

## **GREAT ORME COUNTRY PARK BYELAWS**

Byelaws made by the Council of the County Borough of Conwy under Section 41 of the Countryside Act 1968, with respect to Great Orme Country Park, Llandudno.

### **Interpretation**

1. In these byelaws:

“the Council” means Conwy County Borough Council;

“the land” means the Great Orme Country Park, Llandudno, in the County Borough of Conwy as shown on the plan attached hereto.

### **Vehicles**

2. (1) No person shall, without reasonable excuse, ride or drive a cycle, motor cycle, motor vehicle or any other mechanically propelled vehicle on the land, or bring or cause to be brought on to the land a motor cycle, motor vehicle, trailer or any other mechanically propelled vehicle (other than a cycle), except on any part of the land where there is a right of way for that class of vehicle.

- (2) If the Council has set apart a space on the land for use by vehicles of any class, this byelaw shall not prevent the riding or driving of those vehicles in the space so set apart, or on a route, indicated by signs placed in conspicuous positions, between it and the entrance to the land.

- (3) This byelaw shall not extend to invalid carriages.

- (4) In this byelaw:

“cycle” means a bicycle, a tricycle or a cycle having four or more wheels, not being in any case a motor cycle or motor vehicle;

“invalid carriage” means a vehicle, whether mechanically propelled or not, the unladen weight of which does not exceed 150 kilograms, the width of which does not exceed 0.85 meters and which has been constructed or adapted for use for the carriage of one person, being a person suffering from some physical defect or disability and is used solely by such a person;

“motor cycle” means a mechanically propelled vehicle, not being an invalid carriage, with less than four wheels and the weight of which unladen does not exceed 410 kilograms;

mae "cerbyd modur" yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol, heb fod yn gerbyd person gydag anabledd, sydd wedi ei fwriadu neu ei addasu i'w ddefnyddio ar ffyrdd;

mae "trelar" yn golygu cerbyd a dynnir gan gerbyd modur ac sy'n cynnwys carafân.

### Dringo

3. Ni chaiff unrhyw berson, heb reswm digonol, ddringo wyneb unrhyw graig, wal na ffens sydd ar neu'n amgáu'r tir, neu unrhyw goeden, neu unrhyw atalfa, rheilin, bostyn nac unrhyw strwythur arall.

### Symud Strwythurau

4. Ni chaiff unrhyw berson, heb reswm digonol, symud neu ddisodli oddi ar y tir unrhyw atalfa, rheilin, bostyn na sedd, neu unrhyw ran o strwythur neu addurn, neu unrhyw offeryn a ddarparwyd i'w ddefnyddio ar gyfer gweddlnio neu gynnal y tir.

### Gwersylla

5. Ni chaiff unrhyw berson, heb ganiatâd y Cyngor, godi pabell neu ddefnyddio unrhyw gerbyd ar y tir, gan gynnwys carafân, neu unrhyw strwythur arall i bwrvpas gwersylla, heblaw ar unrhyw lecyn sydd wedi ei neilltuo a'i ddangos gan hysbysiad fel man lle caniateir gwersylla.

### Tanau

6. (1) Ni chaiff unrhyw berson gynnau Tân yn fwriadol, na gosod, taflu neu ganiatâu I ddisgyn unrhyw fatsien wedi ei thanio neu unrhyw beth arall sy'n debygol o achosi Tân.  
(2) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn atal rhag tanio neu ddefnyddio stôf neu offer coginio gwersylla sydd wedi ei adeiladu'n iawn, mewn modd na fydd yn achosi perygl o dân neu ddifrod ganddo.

### Masnachu

7. Ni chaiff unrhyw berson ar y tir, heb ganiatâd y Cyngor, werthu, neu gynnig neu arddangos i werthu, na gosod neu hurio, neu gynnig neu arddangos i osod neu hurio, unrhyw nwydd neu wrthrych.

### Gwarchod Bywyd Gwyllt

8. (1) Ni chaiff person ar y tir hwn yn fwriadol ladd, anafu, cymryd neu amharu ar unrhyw anifail neu bysgodyn, na chymryd rhan mewn hela, saethu neu bysgota, na gosod trapiau neu rwydi, na gosod maglau.

“motor vehicle” means a mechanically propelled vehicle, not being an invalid carriage, intended or adapted for use on roads;

“trailer” means a vehicle drawn by a motor vehicle and includes a caravan.

### Climbing

3. No person shall, without reasonable excuse, climb any rock face, wall or fence on or enclosing the land, or any tree, or any barrier, railing, post or other structure.

### Removal of Structures

4. No person shall, without reasonable excuse, remove from or displace on the land any barrier, railing, post or seat, or any part of any structure or ornament, or any implement provided for use in the laying out or maintenance of the land.

### Camping

5. No person shall on the land, without the consent of the Council, erect a tent or use any vehicle, including a caravan, or any other structure for the purpose of camping, except on any area which may be set apart and indicated by notice as a place where camping is permitted.

### Fires

6. (1) No person shall on the land intentionally light a fire, or place, throw or let fall a lighted match or any other thing so as to be likely to cause a fire.  
(2) This byelaw shall not prevent the lighting or use of a properly constructed camping stove or cooker in any area set aside for the purpose, in such a manner as not to cause danger of or damage by fire.

### Trading

7. No person shall on the land, without the consent of the Council, sell, or offer or expose for sale, or let to hire, or offer or expose for letting to hire, any commodity or article.

### Protection of wildlife

8. (1) No person shall on the land intentionally kill, injure, take or disturb any animal or fish, or engage in hunting, shooting or fishing, or the setting of traps or nets, or the laying of snares.

- (2) Nid yw'r is-ddeddf hon yn gwahardd unrhyw bysgota neu saethu sydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor.

### Pori

9. Ni chaiff unrhyw berson, heb ganiatâd y Cyngor, ryddhau neu ganiatáu i unrhyw anifail bori ar y tir.

### Giatiau

10. Pan fo'r Cyngor yn dynodi drwy hysbysiad sy'n cael ei arddangos yn amlwg ar neu gen ochr unrhyw giât ar y tir ei fod yn waharddedig iadael y giât honno ar agor, ni chaiff unrhyw bersonau sydd wedi agor y giât, neu wedi achosi i'r giât agor, ei gadael ar agor.

### Dyfrffosydd

11. Ni chaiff unrhyw berson yn fwriadol achosi na chaniatáu i lif unrhyw ddraen neu ddyfrffos ar y tir gael ei rhwystro na'i hallwyro neu agor, gau neu weithio neu weithredu mewn modd arall unrhyw lifddor neu offer tebyg ar y tir.

### Llygru dyfrffyrdd

12. Ni chaiff unrhyw berson o fwriad, yn ddiofal neu'n esgeulus ddifwyno na llygru unrhyw ddyffordd yn y tir.

### Symud Deunyddiau Ymaith

13. Ni chaiff unrhyw berson symud na disodli ar y tir unrhyw garreg, bridd neu dywarchen, na'r cyfan neu ran o unrhyw blanhigyn, llwyn neu goeden.

### Darganfyddwyr Metel

14. Ni chaiff unrhyw berson ar y tir ddefnyddio unrhyw ddyfais sydd wedi ei chynllunio neu ei haddasu i ddarganfod neu leoli unrhyw fetel neu fwyn yn y ddaear.

### Hysbysebion

15. Ni chaiff unrhyw berson, heb ganiatâd y Cyngor, osod neu achosi i osod unrhyw hysbyseb, poster, placard, neu hysbysiad ar unrhyw adeilad, wal, ffens, giât, piler drws, postyn, coeden, craig na charreg ar y tir nag o'i amgylch.

- (2) This byelaw shall not prohibit any fishing or shooting which may be authorised by the Council.

Grazing

9. No person shall, without the consent of the Council, turn out or permit any animal to graze on the land.

Gates

10. Where the Council indicates by a notice conspicuously exhibited on or alongside any gate on the land that leaving that gate open is prohibited, no persons having opened the gate, or caused it to be opened, shall leave it open.

Watercourses

11. No person shall knowingly cause or permit the flow of any drain or watercourse on the land to be obstructed or diverted, or open, shut or otherwise work or operate any sluice or similar apparatus on the land.

Pollution of waterways

12. No person shall intentionally, carelessly or negligently foul or pollute any waterway comprised in the land.

Removal of Materials

13. No person shall remove or displace on the land any stone, soil or turf, or the whole or any part of any plant, shrub or tree.

Metal detectors

14. No person shall on the land use any device designed or adapted for detecting or locating any metal or mineral in the ground.

Advertisements

15. No person shall, without the consent of the Council, affix or cause to be affixed any advertisement, bill, placard, or notice upon any building, wall, fence, gate, door pillar, post, tree, rock or stone on or enclosing the land.

## Cŵn

16. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gi sy'n berchen iddo/iddi neu yn ei ofal aros ar y tir onibai fod y ci hwnnw o dan ac yn aros dan reolaeth iawn, a'i fod yn cael ei atal yn effeithiol rhag achosi unrhyw annifyrrwch i unrhyw berson a rhag poeni neu amharu ar unrhyw anifail.

## Rhwystr

17. Ni chaiff unrhyw berson ar y tir:
- (a) rwystro'n fwriadol unrhyw swyddog o'r Cyngor rhag gwneud ei ddyletswyddau'n iawn.
  - (b) rhwystro'n fwriadol unrhyw berson sy'n gwneud unrhyw weithred sydd ei hangen er mwyn cyflawni'n iawn unrhyw gytundeb efo'r Cyngor; neu
  - (c) rhwystro'n fwriadol unrhyw berson arall rhag defnyddio'r tir yn iawn, neu ymddwyn mewn modd a fydd yn rhoi sail rhesymol dros achosi annifyrrwch i bersonau eraill ar y tir.

## Amodau

18. (1) Ni fydd gweithred gan swyddog o'r Cyngor sydd ei hangen er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n iawn ar y tir, neu unrhyw weithred sydd ei hangen er mwyn cyflawni unrhyw gytundeb yn iawn efo'r Cyngor, yn drosedd dan yr is-ddeddfau hyn.
- (2) Ni fydd unrhyw beth yn neu a wneir dan unrhyw rai o ddarpariaethau'r is-ddeddfau hyn mewn unrhyw ffordd yn rhagfarnu nac yn niweidio unrhyw hawl tramwy cyhoeddus drwy'r tir, neu hawliau unrhyw berson sy'n gweithredu'n gyfreithlon yn rhinwedd rhyw ystad, hawl neu ddiddordeb mewn, dros neu'n effeithio ar y tir neu unrhyw ran ohono.

## Cosb

19. Bydd unrhyw berson sy'n troseddu yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

## Dirymiad

20. Mae'r is-ddeddfau a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Aberconwy ar Awst 8fed 1983 ac a gadarnhawyd gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Cynorthwyl, Adran Gartref, ar Dachwedd 15fed 1983 yn ymwneud â'r tir drwy hyn yn cael eu dirymu.

### Dogs

16. No person shall cause or suffer a dog belonging to him or in his charge to remain on the land unless such a dog is and continues to be under proper control, and be effectively restrained from causing annoyance to any person and from worrying or disturbing any animal.

### Obstruction

17. No person shall on the land:
- (a) intentionally obstruct any officer of the Council in the proper execution of his duties
  - (b) intentionally obstruct any person carrying out an act which is necessary to the proper execution of any contract with the Council; or
  - (c) intentionally obstruct any other person in the proper use of the land, or behave so as to give reasonable grounds for annoyance to other persons on the land.

### Savings

18. (1) An act necessary to the proper execution of his duty on the land by an officer of the Council, or any act which is necessary to the proper execution of any contract with the Council, shall not be an offence under these byelaws.
- (2) Nothing in or done under any of the provisions of these byelaws shall in any respect prejudice or injuriously affect any public right of way through the land, or the rights of any person acting legally by virtue of some estate, right or interest in, over or affecting the land or any part thereof.


### Penalty

19. Any person offending against any of these byelaws shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.

### Revocation

20. The byelaws made by Aberconwy Borough Council on 8<sup>th</sup> August 1983 and confirmed by the Assistant Under Secretary of State, Home Department on 15<sup>th</sup> November 1983 relating to the land are hereby revoked.

RHODDWYD DAN SÊL GYFFREDIN  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY  
y 24ain dydd hwn o Mai 2001



4781

GIVEN UNDER THE COMMON SEAL OF  
CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL  
this 24<sup>th</sup> day of May 2001

*R. Cane*  
\_\_\_\_

Mac'r is-ddeddfau uchod drwy hyn yn cael eu cadarnhau gan Swyddog  
a awdurdodwyd i weithredu ar ran Gweinidog y Cynulliad dros yr  
Amgylchedd.

Bydd yr is-ddeddfau uchod yn dod i rym ar 1<sup>st</sup> Ebrill 2002


The foregoing byelaws are hereby confirmed by an Officer authorised  
to act on behalf of the Assembly Minister for Environment.

The foregoing byelaws shall come into effect on 1<sup>st</sup> April 2002

*Merlin Jones*  
Pennaeth Adran yr Cefn Gwlad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Head of Countryside Division  
National Assembly for Wales

— — — GREAT ORME COUNTRY PARK BOUNDARY



Selluwyd ar fapiau'r Arddwng Ordinans gyda chaniatad Rhwng  
Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron (LA 090001)  
Based upon the Ordnance Survey mapping with the permission  
of The Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright (LA090001)  
© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council 1997

Cynllrhyd gan yr Adrian Gwynnion  
Produced in the Planning Department  
Date: 10/07/00 - A.N.